

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Gweithor Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Iau,
16 Ionawr 2020 yn Neuadd Pentref Carmel**

**Minutes of the Consulting Working Group held at Carmel Village Hall,
Thursday, 16 January 2020 at 7.00pm**

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr/ Councillors Alun Wyn Jones ; David C Davies; Eddie Willcox; Hywel J Owen ;
Gwyn Owen Jones; Alan Patterson; Clive Bayley David Roberts Rheolwr/Manager;

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd Alun Wyn Jones.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Dyfed Williams

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda.

4 Adroddiad Holiadur Ymgysylltu Cyhoeddus

Adroddwyd gan AWJ mai trafod crynodeb adroddiad Celyn , wedi ei addasu gan y gweithgor (gwaith gan GOJ a HJO yn bennaf) sydd dan sylw heno, fel bod y gweithgor yn rhoi argymhelliad gerbron y Cyngor llawn Nos Lun (20 Ionawr) i'w gymeradwyo ac i'w arddangos yn gyhoeddus.

GOJ – yn awgrymu fod angen cyflwyniad i'r adroddiad ac fod hwnnw hefyd ar y gwefan. Pawb yn cytuno. Rheolwr ac EGO i ddarparu y cyflwyniad ac ei dosbarthu i'r aelodau cyn y Cyngor llawn Nos Lun

HJO – yn nodi fod 90% o'r cwynion yn gyfrifoldeb y Cyngor Sir. Angen cyfleu y sylw hwn yn y cyflwyniad. Pawb yn cytuno

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) Fod y Cyngor yn derbyn ac yn cymeradwyo'r crynodeb o'r adroddiad***
- ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo y cyflawniad fel a ddarparwyd gan y Rheolwr a GOJ.***
- iii) Fod y cyflwyniad a'r adroddiad cael ei wneud yn gyhoeddus ar gwefan y Cyngor.***

Recommendation to Council -

- i) That the Council accepts and approves the summary report***
- ii) That the Council approves the introduction as provided by the Manager and***

GOJ.

iii) That the presentation and report is made public on the Council's website

5 Adroddiad Blynyddol/Newyddlen

Adroddwyd gan AWJ fod angen amserlen a penderfynu ar y cynnwys.

Rhaid cychwyn rŵan ar y daith i ddarparu yr adroddiad. Awgrymwyd yr amserlen amlinellol canlynol-

- Drafft diwedd Chwefror
- Cyfarfod gyda Delwedd i'w ddylunio diwedd Mawrth
- Cyhoeddi Ebrill neu cyfarfod blynyddol ym mis Mai fan bellaf.

Bydd angen cyfarfod yn fuan yn Chwefror i lunio adroddiad o waith y Cyngor am y flwyddyn a fu ynghyd a gwaith y Cyngor am y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd ar y cynnwys canlynol-

- 1) Rhagymadrodd gan y Cadeirydd
- 2) Gwaith y Cyngor am y flwyddyn wedi bod
- 3) Gwaith y Cyngor am y flwyddyn a fu
- 4) Cyllideb y Cyngor
- 5) Manylion aelodau - pwynt cyswllt

Gofynnodd AWJ i pob aelod gadw eu meddyliau yn agored i gynnwys yr adroddiad a dod yn ôl gyda syniadau erbyn y cyfarfod nesaf o'r gweithgor

Argymhelliad i'r Cyngor

- i) *Fod y Cyngor yn nodi fod y Gweithgor yn cychwyn ar y daith o ddarparu Adroddiad Blynyddol /Newyddlen ar gyfer 2019-20***
- ii) *Fod y Cyngor yn derbyn cynnwys yr adroddiad fel a nodir uchod***
- iii) *Fod y Cyngor yn derbyn yr amserlen fel a nodir uchod***

Recommendation to Council

- i) *That the Council notes that the Working Group is embarking on the journey of providing an Annual Report / Newsletter for 2019-20***
- ii) *That the Council accepts the contents of the report as noted above***
- iii) *That the Council receives the timetable as noted above***

6 Gwefan y Cyngor

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Cwmni Delwedd yn bwriadu cychwyn y gwaith o sefydlu gwefan newydd i'r Cyngor ar Chwefror 3ydd. Disgwylir y bydd y gwaith wedi ei orffen ar 10fed o Chwefror.

Dosbarthwyd papur i pob aelod 'roedd y Rheolwr wedi ei ddarparu yn dangos strwythur y gwefan newydd ynghyd a'r tudalennau sydd ei angen. Mynegwyd mai drafft oedd hwn, man cychwyn yn unig, ac fod modd datblygu y gwefan ymhellach.

Sylwadau aelodau –

AP – angen lincio gwefannau eraill er enghraifft lincio mapiau llwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd i'r tudalen llwybrau. Pawb yn cytuno

EW – angen cynnwys pob ymgynghoriad cyhoeddus ar y gwefan fel bod y cyhoedd yn cael cyfle i ymateb. Pawb yn cytuno

Enw i'r Gwefan Newydd

Nodwyd gan y Rheolwr fod Aled o Gwmni Delwedd wedi cadarnhau ei fod yn bosib cael .llyw.cymru / .gov.uk ond fod yna gost uwch a gwaith gweinyddol o brofi statws.

Argymhelliad y gweithgor yw defnyddio yr enwau canlynol

cyngorcymunedllandwrog.cymru / llandwrogcommunitycouncil.cymru

Trafodwyd cyfeiriadau epost aelodau. Bwriedir symud ymlaen i gyd weithio gyda Delwedd fel bydd gan pob aelod gyfeiriad epost safonol erbyn cyhoeddi yr adroddiad blynyddol. Rheolwr i ddilyn y mater hwn ymlaen gyda Delwedd.

Argymhelliad i'r Cyngor

- i) Fod y Cyngor yn nodi yr hynny adroddwyd***
- ii) Fod y Cyngor yn cytuno ar enw y gwefan newydd sef
cyngorcymunedllandwrog.cymru / llandwrogcommunitycouncil.cymru***
- iii) Fod y Cyngor yn cytuno fod angen cyfeiriadau epost safonol y Cyngor i
aelodau***

Recommendation to Council

- i) That the Council notes what has been reported***
- ii) That the Council agrees on the name of the new website –
cyngorcymunrdllandwrog.cymru / llandwrogcommunitycouncil.cymru***
- iii) That the Council agrees that standard Council email addresses are required
for members***

Daeth y cyfarfod i ben am 8:10 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	